

## **BARDDAS – Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD**

### **ADRODDIAD BLYNYDDOL YR YSGRIFENNYDD AR RAN Y PWYLLGOR GWAITH am y flwyddyn Ebrill 2024 – Mawrth 2025**

**Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD Rhif yr elusen: 511899**

#### **Ymddiriedolwyr Pwyllgor Gwaith Barddas**

Swyddogion y Pwyllgor Gwaith:      Tymor / Dyddiad y'u penodwyd yn ymddiriedolwr

Cadeirydd:	Gwenallt Llwyd Ifan	2023	(07/10/2023)
Is-Gadeirydd:	Aneirin Karadog	2023	(12/11/2012)
Trysorydd:	Dafydd Meirion Jones	2023	(07/10/2023)
Ysgrifennydd:	Aled Evans	2024	(01/07/2023)

Aelodau'r Pwyllgor Gwaith      Tymor

Dafydd John Pritchard	2025	(30/03/2011)
Tudur Dylan Jones	2025	(18/03/2011)
Gruffudd Antur Edwards	2025	(12/11/2012)
Nerys Mari George	2025	(28/10/2017)
Mererid Hopwood	2025	(28/10/2017)
Osian Rhys Jones	2025	(28/10/2017)
Joanne Debrah Heyde	2025	(28/09/2022)
Elinor Wyn Reynolds	2025	(28/09/2022)
Rhys Dafis (Ysgr. Aelodaeth a Thanysgrifio)	2025	(04/02/2017)
Llion Elis Jones*	2024	(18/03/2011)

(\*ymddiswyddodd Mawrth 31ain 2025)

Derbyniodd y Comisiwn Elusennau ein ffurflen flynyddol ar gyfer 01/04/2023 - 31/03/2024 ar 23/01/2025.

#### **Swyddogion Cyflogedig Barddas:**

Golygydd cylchgrawn Barddas:	Twm Morys (telerau llawrydd)	2011
Golygydd creadigol Barddas:	Bethany Celyn Jukes-Hughes	2023
Cydlynnydd:	Sioned Erin Hughes	2023

#### **Cyfranwyr eraill at waith Barddas:**

Cynrychiolydd y Cyngor Llyfrau: Arwel Jones.

Cyfrifydd: Cwmni Hill a Roberts, Rhuthun

Bancwyr: Banc Barclays; Banc Nat West (caewyd y cyfrif yn Rhagfyr 2024)

Dylunwyr ac Argraffwyr: Elgan Griffiths (GraffEG), Dafydd Owain, Adran Ddylunio'r Cyngor Llyfrau, Rebecca

Ingleby Davies, Y Lolfa, Gwasg Gomer,  
Gwasg Serol.

Ar Banel Llên Canolog yr Eisteddfod Genedlaethol: Yr Ysgrifennydd.  
Ar Banel Dewis Bardd Plant Cenedlaethol Cymru: Y Cadeirydd.

### Cyfarfodydd Pwyllgorau Barddas yn y cyfnod dan sylw

#### Cyfarfodydd Pwyllgor Gwaith / Cyfarfod Ymddiriedolwyr Barddas:

6ed Gorffennaf, 2024      5ed Hydref, 2024      4ydd Tachwedd, 2024  
17eg Ionawr, 2025      17eg Mawrth, 2025,

[Mae'r Cyfansoddiad yn galw ar y Pwyllgor Gwaith i gyfarfod o leiaf 3 gwaith y flwyddyn]

#### Cyfarfodydd Is-Bwyllgor Cyhoeddiadau Barddas:

11eg Mehefin, 2024      5ed Hydref, 2024      4ydd Rhagfyr, 2024  
11eg Mawrth, 2025

### Aelodaeth Barddas Aelodaeth Barddas – crynodeb diwedd blwyddyn 31/03/2025

	31/03/23	31/03/24	31/03/25
Nifer yr aelodau:	531	538	* 535
Aelodau newydd yn ystod y flwyddyn		17	19
Colli aelod drwy farwolaeth (i ni wybod) yn ystod y flwyddyn:	23	2	3
Dad-ymaelodi / dileu oherwydd dim ateb:	83	8	19
Aelodau'n talu drwy archeb banc:	398	446	461
Dyledwyr ar ddiwedd y flwyddyn:	22	16	36
Dyled diwedd blwyddyn	£550	£400	** £585

\* Dydy hyn ddim yn cynnwys Ysgolion Uwchradd sy'n cael y cylchgrawn am ddim.

\*\* Mae hyn yn bennaf oherwydd bod aelodau'n anghofio addasu eu tanysgrifiad neu heb dalu tanysgrifiad mewn pryd.

### Cyhoeddiadau gan Barddas Ebrill 2023 – Mawrth 2024

Y Cylchgrawn 'Barddas' (yng ngofal golygyddol y Prifardd Twm Morys)

Rhifyn 361 (Gwanwyn)	Ebrill 2024
Rhifyn 362 (Haf)	Gorffennaf 2024
Rhifyn 363 (Hydref)	Hydref 2024
Barddas Bach y Dolig	Rhifyn electronig
Rhifyn 364 (Gaeaf)	Chwefror 2025

Cyfrolau gwasg 'Cyhoeddiadau Barddas' (yng ngofal Bethany Celyn Jukes-Hughes)

**Egin**, Aron Pritchard (Mehefin 2024)

**Cariad Yw**, Casi Wyn (Mehefin 2024)

**Pethau sy'n Digwydd**, Siôn Tomos Owen (Gorffennaf 2024)

**deud llai**, Dafydd John Pritchard (Hydref 2024)

**rhwng dau feddwl**, Christine James (Tachwedd 2024)

**Chwarter Eiliad**, Jo Heyde (Mawrth 2025)

**O Ffrwyth y Gangen Hon, gol.** Nia Morais (Mawrth 2025)

**Cerddi'r Ystrad**, Lyn Ebenezer (Mawrth 2025)

**Pamffledi Caleidosgop - Rhaff**, Mari George & **Bachgen Bach o Bonty**, Aneirin Karadog (Awst 2024)

Hoffem ddiolch yn fawr i'r Cyngor Llyfrau am barhad eu cefnogaeth i'n gweithgaredd cyhoeddi, ac am y cydweithio hwylus bob amser, a'r parodrwydd i ystyried ac ysgogi syniadau newydd.

### **Gweithgareddau hyrwyddol Barddas 2023/20234**

Barddas oedd yn gyfrifol fel arfer am drefnu a chynnal ymryson y beirdd (**Ymryson Barddas**) yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd, Rhondda Cynon Taf.

Cafwyd 4 ymryson hwyliog, gyda Twm Morys a Gruffudd Antur yn Meurynna ac Islwyna'n ddifyr ac yn ddeheuig fel arfer. Wrth eu hochr roedd Mair Tomos Ifans a'r Prifardd Emyr Lewis yn gyfrifol am feirniadu limrigau ac englynion y dydd; a chafwyd degau ar ddegau o'r rheini. Diolchwn i swyddogion yr Eisteddfod am hwyluso'r digwyddiad. Dyma'r buddugwyr:

Tlws Rolant o Fôn (Tîm buddugol yr Ymryson)	Llŷn ac Eifionydd
Tlws T Arfon Williams (englyn gorau'r Ymrysona)	Tîm Deheubarth
Tlws John Glyn Jones ('englyn y dydd' gorau)	Idris Reynolds
Tlws Edgar Parry Williams	John Wyn Jones

Buddugwyr Englyn y Dydd:

Mawrth	Huw Meirion Edwards
Mercher	Arwel Emlyn
Iau	Huw Meirion Edwards
Gwener	Idris Reynolds

Buddugwyr Limrig y Dydd:

Mawrth	Iwan Bryn James
Mercher	John Wyn Jones
Iau	John Wyn Jones
Gwener	Meirion Jones

Cynhaliwyd cystadlaethau **Tlwsau Barddas** hefyd a'r enillwyr oedd:

Tlws Pat Neill – ysgolion cynradd: Isabelle Bray (Ysgol Myfenydd, Ceredigion)

Tlws Ysgolion Uwchradd: Luned Medi Defis (Ysgol Gyfun Bro Myrddin)

Tlws D Gwyn Evans – oedran 16 – 25                      Tesni Peers (Wrecsam)

Tlws y Gerdd Rydd – cerdd rydd orau Barddas: Manon Wynn Davies

Tlws W D Williams – englyn unigol gorau Barddas:      Arwel Emlyn

Tlws Roy Stephens – cerdd gaeth orau Barddas:          Alan Llwyd

Ar benwythnos 1af – 3ydd Tachwedd, 2023 cynhaliwyd **Gŵyl Gerallt** ym Mhenllyn, gyda'r prif sylw ar goffâu deng mlynedd ers bu farw Gerallt Lloyd Owen.

Penderfynwyd neilltuo'r ŵyl gyfan i ddathlu bywyd a gwaith Gerallt ei hun. Bu cefnogaeth dda iawn i weithgareddau'r ŵyl gyda Chlwb Golff y Bala dan ei sang ar gyfer cyflwyniadau'r dydd Sadwr. Dyma grynodedb o'r rhaglen:

Nos Wener:

Neuadd Bentref Llanuwchllyn, gig gyda Bob Delyn a'r Ebillion a Katie Howells (trefnwyd gan Fenter Gymunedol Llanuwchllyn).

Dydd Sadwrn:

Yng Nghlwb Golff y Bala:

‘Talwrn yr Ysgolion Uwchradd’ – Ysgol Godre'r Berwyn v Ysgol Dyffryn Conwy, dan ofal y Meuryn, Ceri Wyn Jones (ar gyfer Radio Cymru).

Darlith Goffa Gerallt 2024: ‘Cerddi anghasgledig ac anghasgladwy Gerallt’ –Dr. Gruffudd Antur.

‘Sesiwn Hel Atgofion am Gerallt’ – Huw Jones, Elwyn Edwards, Elfyn Pritchard, Eilir Hendre ac Angharad Elen dan gadeiryddiaeth Ynyr Williams.

‘Cerdd Orau Gerallt’ – llys llên gyda'r Prifardd Emyr Lewis yn cadw trefn ar ddadleuon y Prifardd Myrddin ap Dafydd, Y Prifardd Mererid Hopwood, Eurig Salisbury, Y Prifardd Tudur Dylan Jones, Nia Powell, a'r Dr. Peredur Lynch.

Ymryson Cofio Gerallt – gyda'r Meuryn Twm Morys a'r Islwyn Gruffudd Antur yn graddio beirdd timoedd Penllyn, Llandwrog, Tir Iarll a Chilmeri.

Enillwyd cystadleuaeth englyn yr ŵyl ar y cyd gan Nia Powell a'r Prifardd Tudur Dylan Jones.

Bore Sul: taith i Lyn Caereini wedi'i thywys gan Eilir Hendre.

Cynhaliwyd nifer o **lansiadau cyfrolau newydd** pan fu awduron yn cael eu holi ac yn trafod a chyflwyno eu gwaith. Roedd y digwyddiadau yn gartrefol broffesiynol, gyda chynulleidfau dda ymhob un. Llwyddwyd i gael sylw i amryw o'n cyfrolau newydd ar raglenni teledu megis Heno, ar y radio ac mewn cylchgronau. Roedd y cyhoeddusrwydd cenedlaethol i'r lansiadau yn gyfrwng buddiol i hyrwyddo gwerthiant.

Bu nifer o aelodau'r Gymdeithas yn weithgar yn **hyrwyddo Cerdd Dafod yn lleol** yn ystod y flwyddyn, drwy gynnal dosbarthiadau cynganeddu mewn canolfannau ac yn rhithiol, a chefnogi beirdd unigol sy'n dysgu'r grefft. Bu eraill yn sgwrsio neu ddarlithio am farddoniaeth, a llunio englynion a cherddi ar gyfer achlysuron penodol.

Partneriaeth rhwng y BBC a Barddas sy'n gyfrifol am ddewis '**Bardd y Mis**' i lunio cerddi cyfoes i'w darlledu ar Radio Cymru. Jo Heyde a fu'n gyfrifol am gydlyn cyfraniadau'r beirdd gyda Radio Cymru, a chyfrannodd sawl un o'n haelodau at y raglenni Radio o fis i fis. Dyma gofnod o'r rhai a fu'n feirdd y mis yn ystod y cyfnod dan sylw'r adroddiad hwn: Ebrill 2024, Esyllt Angharad Lewis; Mai 2024, Alan Llwyd; Mehefin 2024, Casia Wiliam; Gorffennaf 2024, Jo Heyde; Awst 2024, Lowri Hedd; Medi 2024, Meirion Jones; Hydref 2024, Gwen Saunders Collins; Tachwedd 2024, Eirian Dafydd; Rhagfyr 2024, Aron Pritchard; Ionawr 2025 Gareth Evans Jones; Chwefror 2025, Rhys Iorwerth; Mawrth 2025, Brenig Davies.

**Yn ogystal â'n gwefan, defnyddiwyd cyfryngau X (Trydar) a Gweplyfr** a thebyg yn helaeth iawn hefyd i hyrwyddo'n digwyddiadau a'n lansiadau. Yn sicr, bu hyn yn allweddol i gynnal proffil ein gwaith. Gyda mwy o bobl yn siopa 'ar lein', mae'n gyfrwng pwysig i'r dyfodol, yn enwedig ymhlith y to iau.

Croesawyd penodiad Sioned Erin Hughes ar y 1af Ebrill 2024 yn gydlynnydd newydd Barddas.

**Aled Evans**

Ysgrifennydd

Rhagfyr 2025

## Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

### BARDDAS

4. Talwyd yr ymddiriedolwyr (neu bersonau cysylltiedig ag ymddiriedolwyr) canlynol am waith arbenigol yn trefnu digwyddiadau hyrwyddol:

Enw	Cyfrol	Disgrifiad	Swm £
Gruffudd Antur (gwaith yn yr Eisteddfod Gen)	Islwyna		540

Gwnaed y taliad uchod gan Barddas wedi i'r elusen dderbyn y swm gan y BBC.

5. Talwyd 3 ymddiriedolwr (neu bersonau cysylltiedig ag ymddiriedolwyr) ad-daliadau am gostau roeddynt wedi eu talu ar ran Barddas a chostau teithio yn ystod y flwyddyn am gyfanswm o £1,146. Roedd y taliadau hyn yn cyfateb i'r costau dalwyd ar ran Barddas gan yr ymddiriedolwyr ac nid oedd unrhyw elw neu fudd i'r Ymddiriedolwyr.

Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd rhoddion o £150 gan ymddiriedolwyr (neu bersonau cysylltiedig ag ymddiriedolwyr) (£100 tuag at Gwyl Gerallt a £50 i Gronfa Gerallt).

6. Yn ystod y flwyddyn, darparwyd benthyciadau gan yr ymddiriedolwyr i'r elusen am gyfanswm o £6,200. Mae'r benthyciadau yn ddi-log ac nid oes amser penodol ar gyfer eu had-dalu.

## Y GYMDEITHAS GERDD DAFOD

### BARDDAS

4. Talwyd yr ymddiriedolwyr (neu bersonau cysylltiedig ag ymddiriedolwyr) canlynol am waith arbenigol yn trefnu digwyddiadau hyrwyddol:

Enw	Cyfrol	Disgrifiad	Swm £
Gruffudd Antur (gwaith yn yr Eisteddfod Gen)	Islwyna		540

Gwnaed y taliad uchod gan Barddas wedi i'r elusen dderbyn y swm gan y BBC.

5. Talwyd 3 ymddiriedolwr (neu bersonau cysylltiedig ag ymddiriedolwyr) ad-daliadau am gostau roeddynt wedi eu talu ar ran Barddas a chostau teithio yn ystod y flwyddyn am gyfanswm o £1,146. Roedd y taliadau hyn yn cyfateb i'r costau dalwyd ar ran Barddas gan yr ymddiriedolwyr ac nid oedd unrhyw elw neu fudd i'r Ymddiriedolwyr.

Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd rhoddion o £150 gan ymddiriedolwyr (neu bersonau cysylltiedig ag ymddiriedolwyr) (£100 tuag at Gwyl Gerallt a £50 i Gronfa Gerallt).

6. Yn ystod y flwyddyn, darparwyd benthyciadau gan yr ymddiriedolwyr i'r elusen am gyfanswm o £6,200. Mae'r benthyciadau yn ddi-log ac nid oes amser penodol ar gyfer eu had-dalu.